OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 1330 (Cy. 269)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU
# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *14 Rhagfyr 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *16 Rhagfyr 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *17 Ionawr 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan—

- Erthyglau 47(2)(b) a 54(4)(a) a (b) o Reoliad (EU) 2017/625 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion(**1**);
- Erthygl 53(1)(b) o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**2**).

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 144(7) o Reoliad (EU) 2017/625, cyn gwneud y Rheoliadau hyn mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r cyrff a'r personau hynny yr ymddengys i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli buddiannau y mae'n debygol y bydd y Rheoliadau hyn yn effeithio arnynt yn sylweddol ac unrhyw gyrff neu bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002, ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

(**1**) EUR 2017/625, a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1481; ceir offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol. Mae'r term "the appropriate authority" wedi ei ddiffinio yn Erthygl 3(2A) o EUR 2017/625.

(**2**) EUR 2002/178, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/641 a 2022/377. Diwygiwyd O.S. 2019/641 gan O.S. 2020/1504. Mae'r term "appropriate authority" wedi ei ddiffinio yn Erthygl 3(19) o EUR 2002/178.

### Enwi, rhychwant, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793) (Cymru) 2022.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn—

(a) yn rhychwantu Cymru a Lloegr;

(b) yn gymwys o ran Cymru;

(c) yn dod i rym ar 17 Ionawr 2023.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 1 mewn grym ar 17.1.2023, gweler **rhl. 1(2)(c)**

### Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793

**2.**—(1) Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793 ar gynyddu dros dro reolaethau swyddogol a mesurau brys sy'n rheoli mynediad i'r Undeb i nwyddau penodol o drydydd gwledydd penodol(**3**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

**F1**(2) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**F2**(3) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(4) Yn lle Atodiad 2a, rhodder yr Atodiad 2a a geir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Rhl. 2(2) wedi ei hepgor (7.3.2024) yn rhinwedd Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793) (Cymru) 2024 (O.S. 2024/119), rhlau. 1(2)(c), **3(a)**

**F2** Rhl. 2(3) wedi ei hepgor (7.3.2024) yn rhinwedd Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793) (Cymru) 2024 (O.S. 2024/119), rhlau. 1(2)(c), **3(a)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 2 mewn grym ar 17.1.2023, gweler **rhl. 1(2)(c)**

*Lynne Neagle*
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

14 Rhagfyr 2022

(**3**) EUR 2019/1793, a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1631.

## [F3]ATODLEN 1

**Diwygiadau Testunol**

**F3** Atod. 1 wedi ei hepgor (7.3.2024) yn rhinwedd Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793) (Cymru) 2024 (O.S. 2024/119), rhlau. 1(2)(c), **3(b)**

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

## [F4]ATODLEN 2

**Diwygiadau Testunol**

**F4** Atod. 2 wedi ei hepgor (7.3.2024) yn rhinwedd Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793) (Cymru) 2024 (O.S. 2024/119), rhlau. 1(2)(c), **3(b)**

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

## ATODLEN 3

Rheoliad 2(4)

Yr Atodiad i'w roi yn lle Atodiad 2a i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 3 mewn grym ar 17.1.2023, gweler **rhl. 1(2)(c)**

"ANNEX 2a

Food and feed from certain third countries subject to suspension of entry into Great Britain referred to in Article 11a

| *Country of origin* | *Food and feed (intended use)* | *CN code* [(1)] | *TARIC sub-division* | *Hazard* |
|---|---|---|---|---|
| Nigeria (NG) | Food<br>consisting of<br>dried beans<br>***(Food)*** | 0713 35 00<br>0713 39 00<br>0713 90 00" | | Pesticide residues |

**(1)** Where only certain products under any CN code are required to be examined, the CN code is marked 'ex'.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio, o ran Cymru, Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793 ar gynyddu dros dro reolaethau swyddogol a mesurau brys sy'n rheoli mynediad i'r Undeb i nwyddau penodol o drydydd gwledydd penodol ("Rheoliad 2019/1793").

Mae rheoliad 2 yn amnewid, gyda diwygiadau, Atodiadau 1, 2 a 2a i Reoliad 2019/1793. Amnewidir Atodiad 1 drwy ddefnyddio pwerau yn Erthyglau 47(2)(b) a 54(4)(a) o Reoliad (EU) 2017/625 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion. Amnewidir Atodiadau 2 a 2a drwy ddefnyddio pwerau yn Erthygl 53 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd ac Erthygl 54(4)(b) o Reoliad (EU) 2017/625.

Mae Atodiad 1 yn cynnwys y rhestr o fwyd a bwyd anifeiliaid nad ydynt yn dod o anifeiliaid sy'n ddarostyngedig i gynnydd dros dro mewn rheolaethau swyddogol mewn safleoedd rheoli ar y ffin neu mewn safleoedd rheoli ym Mhrydain Fawr. Mae'r newidiadau a wneir i Atodiad 1 fel a ganlyn.

- Mae amlder y gwiriadau ar bupur du o Frasil (ar gyfer Salmonela) wedi ei gynyddu o 20% i 50%.
- Mae'r cofnod ar gyfer cnau daear (pysgnau) a chynhyrchion cysylltiedig o Frasil (ar gyfer afflatocsinau) wedi ei drosglwyddo i Atodiad 1 (o Atodiad 2, Tabl 1). Nid oes unrhyw newid i amlder rhagnodedig y gwiriadau, sy'n parhau ar 10%.
- Cofnod newydd ar gyfer cnau daear (pysgnau) a chynhyrchion cysylltiedig o Frasil (ar gyfer gweddillion plaleiddiaid). Mae amlder y gwiriadau wedi ei ragnodi ar 20%.
- Mae'r cofnod ar gyfer aeron goji o Tsieina (ar gyfer gweddillion plaleiddiaid) wedi ei ddileu.
- Mae'r cofnod ar gyfer cnau daear (pysgnau) a chynhyrchion cysylltiedig o Tsieina (ar gyfer afflatocsinau) wedi ei drosglwyddo i Atodiad 1 (o Atodiad 2, Tabl 1). Mae amlder y gwiriadau wedi ei leihau o 20% i 10%.
- Mae'r cofnod ar gyfer hadau sesamwm o Ethiopia (ar gyfer Salmonela) wedi ei ddileu (mae'r cofnod wedi ei drosglwyddo i Atodiad 2, Tabl 1).
- Mae amlder y gwiriadau ar gnau cyll a chynhyrchion cysylltiedig o Georgia (ar gyfer afflatocsinau) wedi ei leihau o 50% i 20%.
- Mae amlder y gwiriadau ar ocra o India (ar gyfer gweddillion plaleiddiaid) wedi ei gynyddu o 10% i 20%.
- Mae'r cofnod ar gyfer pupurau o rywogaethau'r *Capsicum* (pupurau melys neu bupurau heblaw pupurau melys) o Sri Lanka (ar gyfer afflatocsinau) wedi ei ddileu (mae'r cofnod wedi ei drosglwyddo i Atodiad 2, Tabl 1).
- Mae amlder y gwiriadau ar jacffrwyth o Falaysia (ar gyfer gweddillion plaleiddiaid) wedi ei gynyddu o 20% i 50%.
- Cofnod newydd ar gyfer bwyd sy'n cynnwys, neu fwyd sydd ar ffurf, dail betel ( *Piper betle*) o Wlad Thai (ar gyfer Salmonela). Mae amlder y gwiriadau wedi ei ragnodi ar 10%.
- Mae amlder y gwiriadau ar bupurau o rywogaethau'r *Capsicum* (ac eithrio pupurau melys) o Wlad Thai (ar gyfer gweddillion plaleiddiaid) wedi ei gynyddu o 10% i 20%.

- Mae'r cofnod ar gyfer grawnwin sych (gan gynnwys grawnwin sych sydd wedi eu torri neu eu crawennu i ffurfio past heb driniaeth bellach) o Dwrci (ar gyfer Ocratocsin A) wedi ei ddileu.
- Mae'r cofnod ar gyfer cnau cyll a chynhyrchion cysylltiedig o Dwrci (ar gyfer afflatocsinau) wedi ei drosglwyddo i Atodiad 1 (o Atodiad 2, Tabl 1). Nid oes unrhyw newid i amlder rhagnodedig y gwiriadau, sy'n parhau ar 5%.
- Cofnod newydd ar gyfer lemonau o Dwrci (ar gyfer gweddillion plaleiddiaid). Mae amlder y gwiriadau wedi ei ragnodi ar 20%.
- Mae amlder y gwiriadau ar gyfer mandarins (gan gynnwys tanjerîns a satswmas), clementinau, wilkings a hybridiau sitrws tebyg o Dwrci (ar gyfer gweddillion plaleiddiaid) wedi ei gynyddu o 5% i 20%.
- Mae amlder y gwiriadau ar orenau o Dwrci (ar gyfer gweddillion plaleiddiaid) wedi ei gynyddu o 10% i 20%.
- Mae amlder y gwiriadau ar bupurau melys ( *Capsicum annum*) o Dwrci (ar gyfer gweddillion plaleiddiaid) wedi ei gynyddu o 10% i 20%.
- Cofnod newydd ar gyfer pupurau o rywogaethau'r *Capsicum* (ac eithrio pupurau melys) o Dwrci (ar gyfer gweddillion plaleiddiaid). Mae amlder y gwiriadau wedi ei ragnodi ar 20%.
- Mae amlder y gwiriadau ar bupurau o rywogaethau'r *Capsicum* (ac eithrio pupurau melys) o Uganda (ar gyfer gweddillion plaleiddiaid) wedi ei gynyddu o 20% i 50%.
- Mae'r cofnod ar gyfer cnau pistasio a chynhyrchion cysylltiedig o'r Unol Daleithiau (ar gyfer afflatocsinau) wedi ei ddileu.

Mae Atodiad 2, Tabl 1, yn cynnwys y rhestr o fwyd a bwyd anifeiliaid nad ydynt yn dod o anifeiliaid y mae amodau arbennig wedi eu rhagnodi ar eu cyfer sy'n rheoli eu mynediad i Brydain Fawr. Mae'r newidiadau a wneir i Atodiad 2, Tabl 1, fel a ganlyn.

- Cofnod newydd ar gyfer bwyd sy'n cynnwys, neu fwyd sydd ar ffurf, dail betel ( *Piper betle*) o Fangladesh (ar gyfer Salmonela). Mae amlder y gwiriadau wedi ei ragnodi ar 50%.
- Mae'r cofnod ar gyfer cnau daear (pysgnau) a chynhyrchion cysylltiedig o Frasil (ar gyfer afflatocsinau) wedi ei ddileu (mae'r cofnod wedi ei drosglwyddo i Atodiad 1).
- Mae'r cofnod ar gyfer cnau daear (pysgnau) a chynhyrchion cysylltiedig o Tsieina (ar gyfer afflatocsinau) wedi ei ddileu (mae'r cofnod wedi ei drosglwyddo i Atodiad 1).
- Mae'r cofnod ar gyfer hadau sesamwm o Ethiopia (ar gyfer Salmonela) wedi ei drosglwyddo i Atodiad 2, Tabl 1 (o Atodiad 1). Nid oes unrhyw newid i amlder rhagnodedig y gwiriadau, sy'n parhau ar 50%.
- Mae'r cofnod ar gyfer dail betel ( *Piper betle*) o India wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.
  - — Mae cwmpas y cofnod wedi ei estyn i gynnwys bwyd sy'n cynnwys dail betel.
  - — Mae'r is-raniad TARIC wedi ei ddileu.
- Mae amlder y gwiriadau ar gnau daear (pysgnau) a chynhyrchion cysylltiedig o India (ar gyfer afflatocsinau) wedi ei gynyddu o 10% i 50%.
- Mae'r is-raniad TARIC ar gyfer gwm guar o India wedi ei ddileu.
- Mae'r cofnod ar gyfer pupurau o rywogaethau'r *Capsicum* (pupurau melys neu bupurau heblaw pupurau melys) o Sri Lanka (ar gyfer afflatocsinau) wedi ei drosglwyddo i Atodiad 2, Tabl 1 (o Atodiad 1). Nid oes unrhyw newid i amlder rhagnodedig y gwiriadau, sy'n parhau ar 50%.
- Mae amlder y gwiriadau ar gyfer hadau sesamwm o Sudan (ar gyfer Salmonela) wedi ei gynyddu o 20% i 50%.
- Mae'r cofnod ar gyfer cnau cyll a chynhyrchion cysylltiedig o Dwrci (ar gyfer afflatocsinau) wedi ei ddileu (mae'r cofnod wedi ei drosglwyddo i Atodiad 1).

- Mae amlder y gwiriadau ar ddail gwinwydd o Dwrci (ar gyfer gweddillion plaleiddiaid) wedi ei gynyddu o 20% i 50%.

Mae Atodiad 2, Tabl 2, yn cynnwys rhestr o fwyd cyfansawdd sy'n cynnwys unrhyw fwyd a restrir yn Nhabl 1 yn Atodiad 2 oherwydd y risg o halogi gan afflatocsinau mewn swm sy'n fwy nag 20% o naill ai cynnyrch unigol neu swm y cynhyrchion hynny. Y newid a wneir i Dabl 2 yn Atodiad 2 yw ychwanegu cofnod newydd ar gyfer cymysgeddau o sbeisys.

Mae Atodiad 2a yn cynnwys y rhestr o fwyd a bwyd anifeiliaid nad ydynt yn dod o anifeiliaid sydd wedi eu gwahardd rhag dod i Brydain Fawr. Mae'r cofnod yn Atodiad 2a ar gyfer bwyd sy'n cynnwys, neu fwyd sydd ar ffurf, dail betel ( *Piper betle*) o Fangladesh (ar gyfer Salmonela) wedi ei ddileu (ond gweler y cofnod newydd ar gyfer hyn yn Atodiad 2, Tabl 1).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793) (Cymru) 2022. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

- Sch. 1 coming into force by S.I. 2022/1330 reg. 1(2)(c)
- Sch. 1 omitted by S.I. 2024/119 reg. 3(b)
- Sch. 2 coming into force by S.I. 2022/1330 reg. 1(2)(c)
- Sch. 2 omitted by S.I. 2024/119 reg. 3(b)
- Sch. 3 coming into force by S.I. 2022/1330 reg. 1(2)(c)
- reg. 1 coming into force by S.I. 2022/1330 reg. 1(2)(c)
- reg. 2 coming into force by S.I. 2022/1330 reg. 1(2)(c)
- reg. 2(2) omitted by S.I. 2024/119 reg. 3(a)
- reg. 2(3) omitted by S.I. 2024/119 reg. 3(a)